# Rhaglen Dysgu Craidd Caru Darllen

**Mae'r rhaglen ddysgu proffesiynol hon ar gael am ddim i'r holl ymarferwyr sy'n addysgu mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.**

## Gweld y byd trwy lens ddarllen

ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu

Bydd y sesiwn **90 munud** hon yn helpu cyfranogwyr i:

- Edrych yn fanwl ar agweddau darllen eu dysgwyr a'r hyn sy'n eu cymell.
- Trafod sut y gellir ymgorffori darllen mewn ffyrdd ymarferol ar draws gwahanol bynciau.
- Datblygu hyder y dysgwyr i fod yn greadigol yn eu darllen bob dydd, trwy gydol eu bywydau a rhannu hynny gyda dysgwyr mewn ffyrdd hwyliog.

## Y lens ddarllen i arweinwyr

ar gyfer uwch arweinwyr mewn ysgolion

Bydd y sesiwn **45 munud** hon yn helpu cyfranogwyr i:

- Ystyried sut i ddatblygu diwylliant ysgol gyfan o 'weld y byd trwy lens ddarllen'.
- Deall y dull Caru Darllen a'r manteision i'w hysgol.
- Deall yr ymchwil a'r theori sy'n ymwneud â chymhelliant i ddarllen, yn gefn i gynlluniau gwella ysgolion i wella sgiliau darllen.

**Cofrestrwch ar gyfer y sesiwn ddysgu sy'n gweddu orau i'ch rôl, drwy ddefnyddio'r Cod QR neu'r ddolen hon.**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Mentora Caru Darllen
Love Reading Mentoring

# Y dyddiadau sydd ar gael

## Gweld y byd trwy lens ddarllen
ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu

### Sesiynau cyfrwng Saesneg

**Dydd Mawrth, 22 Hydref**
**3.30pm - 5pm**

**Dydd Iau, 24 Hydref**
**3.30pm - 5pm**

**Dydd Mercher, 13 Tachwedd**
**4pm - 5.30pm**

### Sesiynau cyfrwng Cymraeg

**Dydd Mercher, 6 Tachwedd,**
**4.00pm- 5.30pm**

**Dydd Iau, 7 Tachwedd**
**4.00pm – 5.30pm**

## Y lens ddarllen i arweinwyr
ar gyfer uwch arweinwyr mewn ysgolion

### Sesiynau cyfrwng Saesneg

**Dydd Llun, 21 Hydref**
**4pm - 4.45pm**

**Dydd Mawrh, 12 Tachwedd**
**4pm - 4.45pm**

### Sesiynau cyfrwng Cymraeg

**Dydd Iau, 14 Tachwedd**
**4pm – 4.45pm**

**Dydd Llun, 18 Tachwedd**
**3.45pm – 4.30pm**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

MENTORA CARU DARLLEN
LOVE READING MENTORING

# Dewislen Dysgu Caru Darllen

**Ar ôl cwblhau'r sesiwn graidd, byddwch yn cael mynediad i'r Ddewislen Dysgu Caru Darllen – sef pecyn cymorth a sesiynau dysgu cyfunol hygyrch, rhad ac am ddim, sy'n cynnwys adnoddau hyblyg a hwyliog y gallwch eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, a chyfres o sesiynau ar-lein ychwanegol.**

**Cofrestrwch ar gyfer gweithdy craidd Caru Darllen i allu cyrchu Dewislen Dysgu Caru Darllen.**

## Deall eich dysgwyr

Bydd Caru Darllen yn eich cefnogi i ddod yn arbenigwr ar **ddeall a gwerthuso agweddau eich dysgwyr at ddarllen**. Gallwch ddefnyddio'r arolwg Caru Darllen gyda'ch dysgwyr, a byddwn yn eich helpu i ddod i ddeall a dadansoddi'r canlyniadau'n well.

## Pencampwyr Darllen

Archwiliwch ffyrdd hwyliog o hyfforddi a datblygu **modelau rôl darllen** ifanc yn eich ysgol. Gallwch gael mynediad at adnodd ar-lein y gellir ei addasu, ynghyd â sesiwn fer **45 munud** o hyd ar-lein, er mwyn dysgu mwy am fodelu rôl darllen effeithiol.

## Sut i ddarllen stori yn uchel

Gweithdy 1 awr 15 munud ar-lein, wedi ei hwyluso gan **Tamar Eluned Williams**, gyda ffocws ar ddysgu technegau a syniadau i wneud darllen yn uchel yn fwy diddorol i'ch dysgwyr.

## Myfyrdodau

Bydd y sesiwn 1 awr ar-lein hon yn rhoi cyfle i athrawon drafod y strategaethau ymgysylltu â darllen a'r adnoddau y maent wedi'u defnyddio, a hefyd yn gyfle i ddarganfod gan eraill beth weithiodd yn dda a beth yr hoffech ddysgu mwy amdano. Mae'n gyfle ardderchog i **rannu arfer dda** a **chyfnerthu eich dysgu**.

## Mae profiadau darllen hwyliog a hygyrch Caru Darllen

- ar gael i'w **lawrlwytho ac addasu yn rhad ac am ddim**, i bawb sy'n cymryd rhan yn y sesiwn Dysgu Craidd
- yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad **Cwricwlwm i Gymru**
- wedi'u cynllunio i gynnwys **deunyddiau** a **gweithgareddau amlgyfrwng sy'n denu plant i archwilio darllen** fel rhan o'u bywyd bob dydd ac i greu cysylltiadau cadarnhaol â darllen.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

MENTORA CARU DARLLEN · LOVE READING MENTORING

# Dewislen Dysgu Caru Darllen

## Deall eich dysgwyr

**Sesiynau cyfrwng Saesneg**

Dydd Iau, 7 Tachwedd
3.45pm - 4.45pm

Dydd Llun, 11 Tachwedd
4pm - 5pm

**Sesiynau cyfrwng Cymraeg**

Dydd Mawrth, 19 Tachwedd
4pm- 5pm

Dydd Iau, 21 Tachwedd
4pm - 5pm

## Pencampwyr Darllen

**Sesiynau cyfrwng Saesneg**

Dydd Mawrth, 5 Tachwedd
3.30pm - 4.15pm

Dydd Iau, 14 Tachwedd
3.45pm - 4.30pm

**Sesiynau cyfrwng Cymraeg**

Dydd Llun, 25 Tachwedd
4pm - 4.45pm

Dydd Iau, 28 Tachwedd
3.45pm - 4.30pm

## Sut i ddarllen stori yn uchel

**Sesiynau cyfrwng Saesneg**

Dydd Iau, 21 Tachwedd
3.30pm - 4.45pm

**Sesiynau cyfrwng Cymraeg**

Dydd Mercher, 20 Tachwedd
3.30pm - 4.45pm

## Myfyrdodau

**Sesiynau cyfrwng Saesneg**

Dydd Iau, 5 Rhagfyr
4pm - 4.45pm

Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr
3.45pm - 4.30pm

**Sesiynau cyfrwng Cymraeg**

Dydd Llun, 2 Rhagfyr
4pm - 4.45pm

Dydd Iau, 5 Rhagfyr
4.15pm - 5pm